**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2607 (Cy.220)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 92/353/EEC (OJ Rhif L 192, 11.07.1992, t. 63) a Phenderfyniad y Comisiwn 96/78/EC (OJ Rhif L 19, 25.01.1996, t. 39). Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) 1992 (O.S. 1992/3045).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid i gorff neu gymdeithas eu bodloni er mwyn iddo gael ei gydnabod neu iddi gael ei chydnabod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") at ddiben cadw llyfr gre (rheoliad 3(1) a'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn). Rhaid rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i unrhyw gorff neu gymdeithas sy'n bodloni'r meini prawf hyn (rheoliad 3(2)).

Mae Rheoliad 4 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff y Cynulliad Cenedlaethol wrthod rhoi cydnabyddiaeth i gorff neu gymdeithas, neu y caiff dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrtho neu oddi wrthi. Rhaid rhoi gwybod i'r corff yn ysgrifenedig bod unrhyw gydnabyddiaeth wedi'i gwrthod neu'i thynnu'n ôl.

Mae rheoliad 5 yn caniatáu i berson wneud sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol os gwrthodwyd rhoi cydnabyddiaeth neu os tynnwyd hi'n ôl o dan reoliad 4.

Mae rheoliad 6 yn caniatáu i gorff cydnabyddedig rannu prif adran ei lyfr gre yn ddosbarthau gwahanol yn ôl rhinweddau'r ceffylau, ond mae'n ei wahardd rhag gwneud hynny am resymau eraill.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2607 (W.220)

# ANIMALS, WALES

## The Horses (Zootechnical Standards) (Wales) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, implement Commission Decision 92/353/EEC (OJ No. L 192, 11.07.1992, p. 63) and Commission Decision 96/78/EC (OJ No. L 19, 25.01.1996, p. 39). They revoke and replace The Horses (Zootechnical Standards) Regulations 1992 (S.I. 1992/3045).

These Regulations specify the criteria which an organisation or association must satisfy in order to become recognised by the National Assembly for Wales ("the National Assembly") for the purpose of maintaining a stud book (regulation 3(1) and the Schedule to these Regulations). Any organisation or association which satisfies these criteria must be granted official recognition (regulation 3(2)).

Regulation 4 sets out the circumstances in which the National Assembly may refuse to grant recognition to, or may withdraw recognition from, an organisation or association. Any such refusal or withdrawal must be communicated to the organisation in writing.

Regulation 5 allows a person to make representations to the National Assembly where recognition has been refused or withdrawn under regulation 4.

Regulation 6 permits a recognised organisation to divide the main section of its stud book into different classes according to the horses' merits, but prohibits it from doing so for other purposes.

Mae rheoliad 7 yn pennu o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff cydnabyddedig gofnodi ceffyl ym mhrif adran ei lyfr gre.

Caniateir i gorff cydnabyddedig gofnodi ceffyl mewn adran atodol o'i lyfr gre os yw'r ceffyl hwnnw'n bodloni isafswm meini prawf penodol (rheoliad 8); cofnodi ceffyl ym mhrif adran ei lyfr gre er mwyn iddo gymryd rhan mewn rhaglen croesfridio (rheoliad 9); a chofnodi ceffyl a gofrestrwyd mewn llyfr gre arall ym mhrif adran ei lyfr gre ei hun (rheoliad 10).

Paratowyd arfarniad rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 7 specifies the circumstances in which a recognised organisation must enter a horse in the main section of its stud book.

A recognised organisation is permitted to enter a horse in a supplementary section of its stud book where that horse meets certain minimum criteria (regulation 8); to enter a horse in the main section of its stud book to take part in a cross-breeding programme (regulation 9); and to enter a horse registered in another stud book in the main section of its own stud book (regulation 10).

A regulatory appraisal has been prepared for these Regulations. Copies are available from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2607 (Cy.220)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *26 Medi 2006* |
| *Yn dod i rym* | *30 Medi 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol-

**RHAN 1**

Darpariaethau Cyffredinol

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Medi 2006.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ceffyl" ("*horse*") yw anifail o rywogaeth y ceffyl neu'r asyn neu groesfridiau o'r rhywogaethau hynny, ond nid yw'n cynnwys sebras;

ystyr "corff cydnabyddedig" ("*recognised organisation*") yw corff neu gymdeithas-

(a) sy'n cadw llyfr gre y cofnodir neu y cofrestrir ceffylau ynddo neu sy'n llunio un o'r newydd; a

(b) sydd wedi'i gydnabod i'r diben hwn o dan reoliad 3;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National*

(**1**) O.S. 2005/2766.

(**2**) 1972 p. 68.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2607 (W.220)

# ANIMALS, WALES

## The Horses (Zootechnical Standards) (Wales) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 September 2006* |
| *Coming into force* | *30 September 2006* |

The National Assembly for Wales being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by that section, makes the following Regulations-

**PART 1**

General Provisions

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Horses (Zootechnical Standards) (Wales) Regulations 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 30 September 2006.

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations-

"horse" ("*ceffyl*") means an animal of the equine or asinine species or crossbreeds of those species, but does not include zebras;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales.

"recognised organisation" ("*corff cydnabyddedig*") means an organisation or association which-

(a) maintains or establishes a stud book in which horses are entered or registered; and

(b) has been recognised for this purpose under regulation 3;

(**1**) S.I. 2005/2766.

(**2**) 1972 c. 68.

*Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "llyfr gre" ("*stud book*") yw unrhyw lyfr, cofrestr, ffeil neu gyfrwng cofnodi data-

(a) a gedwir gan gorff cydnabyddedig; a

(b) y cofnodir neu y cofrestrir ceffylau ynddo neu ynddi gan grybwyll eu holl hynafiaid sy'n hysbys.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae i ymadroddion nas diffinnir ynddynt ac sy'n digwydd ym Mhenderfyniad y Comisiwn 92/353/EEC(**1**) neu Benderfyniad y Comisiwn 96/78/EC(**2**) yr ystyr sydd iddynt at ddibenion y Penderfyniadau hynny.

**RHAN 2**

Cydnabyddiaeth i Gyrff

**Meini prawf cydnabyddiaeth**

**3**.-(1) Er mwyn cael ei gydnabod neu ei chydnabod yn gorff cydnabyddedig, rhaid i gorff neu gymdeithas-

(a) cyflwyno cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gael ei gydnabod neu ei chydnabod yn gorff cydnabyddedig;

(b) cadw llyfr gre neu lunio un o'r newydd; ac

(c) bodloni'r meini prawf y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 4, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod unrhyw gorff neu gymdeithas sy'n bodloni'r meini prawf a geir ym mharagraff (1).

**Gwrthod cydnabod cyrff neu dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrthynt**

**4**.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wrthod cydnabod corff neu gymdeithas, neu caiff dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrtho neu oddi wrthi, os yw'r corff neu'r gymdeithas-

(a) yn methu bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth a geir yn rheoliad 3(1);

(b) yn methu cydymffurfio â rheoliad 6; neu

(c) yn methu cydymffurfio â rheoliad 7.

(2) Os oes corff cydnabyddedig eisoes yn bodoli mewn cysylltiad â brid penodol o geffyl, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wrthod cydnabod corff neu gymdeithas sy'n cynrychioli'r un brid o geffyl-

(a) os yw o'r farn y byddai cydnabod y corff neu'r gymdeithas-

(i) yn peryglu parhad y brid hwnnw o geffyl;

(**1**) OJ Rhif L192, 11.7.92, t. 63.

(**2**) OJ Rhif L019, 25.1.96, t. 39.

"stud book" ("*llyfr gre*") means any book, register, file or data medium-

(a) which is maintained by a recognised organisation; and

(b) in which horses are entered or registered with mention of all their known ancestors.

(2) Expressions that are not defined in these Regulations and occur in Commission Decision 92/353/EEC(**1**) or Commission Decision 96/78/EC(**2**) have the same meaning in these Regulations as they have for the purposes of those Decisions.

**PART 2**

Recognition of Organisations

**Criteria for recognition**

**3**.-(1) In order to become recognised as a recognised organisation, an organisation or association must-

(a) submit an application for recognition as a recognised organisation to the National Assembly;

(b) maintain or establish a stud book; and

(c) satisfy the criteria referred to in the Schedule to these Regulations.

(2) Subject to regulation 4, the National Assembly must recognise any organisation or association which satisfies the criteria set out in paragraph (1).

**Refusal to recognise and withdrawal of recognition from organisations**

**4**.-(1) The National Assembly may refuse to recognise, or may withdraw recognition from, an organisation or association which-

(a) fails to satisfy the criteria for recognition set out in regulation 3(1);

(b) fails to comply with regulation 6; or

(c) fails to comply with regulation 7.

(2) Where a recognised organisation already exists in respect of a particular breed of horse, the National Assembly may refuse to recognise an organisation or association representing the same breed of horse if-

(a) it considers that recognising the organisation or association would-

(i) endanger the preservation of that breed of horse;

(**1**) OJ No. L192, 11.7.92, p. 63.

(**2**) OJ No. L019, 25.1.96, p. 39.

(ii) yn rhoi yn y fantol y gwaith o redeg y corff cydnabyddedig sy'n bodoli eisoes; neu

(iii) yn rhoi yn y fantol raglen gwella neu ddethol y corff cydnabyddedig sy'n bodoli eisoes; neu

(b) os yw corff cydnabyddedig sy'n bodoli eisoes yn caniatáu i geffylau o'r brid hwnnw gael eu cofnodi mewn adran o'i lyfr gre sy'n llyfr y mae'r corff yn ei gadw'n unol â'r rheolau a osodir gan y corff cydnabyddedig sy'n cadw'r llyfr gre lle y cofnodir tarddiad y brid hwnnw.

(3) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â pharagraff (1) neu (2) yn gwrthod cydnabod corff neu gymdeithas, neu'n tynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrtho neu oddi wrthi, rhaid iddo roi'n ysgrifenedig i'r corff hwnnw neu i'r gymdeithas honno y rhesymau am wrthod cydnabyddiaeth neu am ei thynnu'n ôl.

**Sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol**

5.-(1) Caiff person wneud sylwadau yn erbyn penderfyniad i wrthod cydnabyddiaeth i gorff neu gymdeithas neu i'w thynnu'n ôl oddi wrtho neu oddi wrthi o dan reoliad 4, a hynny'n ysgrifenedig ac i berson a benodir i'r diben hwnnw gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Bydd y person a benodir yn ystyried y sylwadau ac yn rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad terfynol ac o'r rhesymau drosto.

**RHAN 3**

Ffurf a Chynnwys Llyfr Gre

**Rhannu prif adran llyfr gre**

**6**. Rhaid i gorff cydnabyddedig beidio â rhannu prif adran ei lyfr gre ac eithrio yn ddosbarthau gwahanol yn ôl rhinweddau'r ceffylau.

**Cofnod gorfodol ym mhrif adran llyfr gre**

**7**.-(1) Rhaid i gorff cydnabyddedig gofnodi ceffyl ym mhrif adran ei lyfr gre-

(a) os yw'r ceffyl hwnnw'n un o ddisgynyddion rhieni a gofnodwyd ym mhrif adran llyfr gre yr un brid;

(b) os yw pedigri'r ceffyl hwnnw wedi'i sefydlu'n unol â rheolau ei lyfr gre; ac

(c) os nodir bod y ceffyl hwnnw'n ebol wrth droed

(ii) jeopardise the operation of the existing recognised organisation; or

(iii) jeopardise the improvement or selection programme of the existing recognised organisation; or

(b) an existing recognised organisation allows horses of that breed to be entered in a section of its studbook which it maintains in accordance with the rules laid down by the recognised organisation maintaining the stud book of the origin of that breed.

(3) Where the National Assembly refuses to recognise, or withdraws recognition from, an organisation or association in accordance with paragraph (1) or (2), the reasons for that refusal or withdrawal must be given to that organisation or association in writing.

**Representations to the National Assembly**

**5**.-(1) A person may make representations in writing against a refusal to recognise, or a withdrawal of recognition from, an organisation or association under regulation 4 to a person appointed for the purpose by the National Assembly.

(2) The appointed person will consider the representations and report in writing to the National Assembly.

(3) The National Assembly will give written notification of its final determination and the reasons for it.

**PART 3**

Form and Content of Stud Book

**Division of main section of stud book**

**6**. A recognised organisation must not divide the main section of its stud book except into different classes according to the horses' merits.

**Compulsory entry in main section of stud book**

**7**.-(1) A recognised organisation must enter a horse in the main section of its stud book if that horse-

(a) is descended from parents entered in the main section of a stud book of the same breed;

(b) has a pedigree established in accordance with the rules of its stud book; and

(c) is identified as foal at foot in accordance with the rules of its stud book, which rules must at

yn unol â rheolau ei lyfr gre, sy'n rheolau y mae'n rhaid iddynt gynnwys o leiaf ofyniad am dystysgrif egluro.

(2) Os yw ceffyl yn gymwys i'w gofnodi mewn adran atodol o lyfr gre yn unol â'r meini prawf a geir yn rheoliad 8, rhaid i gorff cydnabyddedig ganiatáu i epil y ceffyl hwnnw gael ei gynnwys ym mhrif adran ei lyfr gre.

**Cofnod yn adran atodol llyfr gre**

**8**. Os nad yw ceffyl yn bodloni'r meini prawf a geir yn rheoliad 7(1), caiff corff cydnabyddedig gofnodi'r ceffyl hwnnw mewn adran atodol o'i lyfr gre-

(a) os yw'r ceffyl hwnnw wedi'i nodi'n unol â rheolau ei lyfr gre;

(b) os yw'r corff cydnabyddedig yn barnu bod y ceffyl hwnnw'n cydymffurfio â safon y brid; ac

(c) os yw'r ceffyl hwnnw'n bodloni'r gofynion ynghylch isafswm perfformiad a geir yn y rheolau yn ei lyfr gre.

**Rhaglenni croesfridio**

**9**. Os nad yw ceffyl yn bodloni'r meini prawf a geir yn rheoliad 7(1), caiff corff cydnabyddedig gofnodi'r ceffyl hwnnw ym mhrif adran ei lyfr gre er mwyn iddo gymryd rhan mewn rhaglen croesfridio-

(a) sydd wedi'i chymeradwyo gan y corff hwnnw'n unol â'r rheolau yn ei lyfr gre; a

(b) sy'n pennu pa fridiau y caniateir iddynt gymryd rhan yn y rhaglen honno.

**Cofnodi ceffylau a gofrestrir mewn llyfrau gre eraill**

**10**. Os-

(a) daw cais i law corff cydnabyddedig oddi wrth berchennog ceffyl a gofrestrwyd mewn llyfr gre arall yn gofyn am i'r ceffyl hwnnw gael ei gofnodi ym mhrif adran llyfr gre'r corff ei hun; a

(b) yw corff cydnabyddedig wedi rhannu prif adran ei lyfr gre yn unol â rheoliad 6,

rhaid i'r corff cydnabyddedig gofnodi'r ceffyl yn y dosbarth yn ei lyfr gre y mae'r ceffyl hwnnw'n bodloni meini prawf y dosbarth hwnnw.

least include a requirement for a covering certificate.

(2) Where a horse is eligible for entry in a supplementary section of a stud book in accordance with the criteria set out in regulation 8, a recognised organisation must allow the progeny of that horse to be entered in the main section of its stud book.

**Entry in supplementary section of stud book**

**8**. Where a horse does not satisfy the criteria set out in regulation 7(1), a recognised organisation may enter that horse in a supplementary section of its stud book if that horse-

(a) has been identified in accordance with the rules of its stud book;

(b) is judged by the recognised organisation to conform to the breed standard; and

(c) meets the requirements for minimum performance set out in the rules of its stud book.

**Cross breeding programmes**

**9**. Where a horse does not satisfy the criteria set out in regulation 7(1), a recognised organisation may enter that horse in the main section of its stud book for the purpose of it taking part in a cross-breeding programme which-

(a) has been approved by that organisation in accordance with the rules of its stud book; and

(b) specifies the breeds which are allowed to take part in that programme.

**Entry of horses registered in other stud books**

**10**. Where a recognised organisation-

(a) receives a request from the owner of a horse registered in another stud book to enter that horse in the main section of its own stud book; and

(b) has divided the main section of its stud book in accordance with regulation 6,

the recognised organisation must enter the horse into the class of its stud book whose criteria that horse meets.

**Dirymu**

**11**. Dirymir Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) 1992(**1**) o ran Cymru.

**Revocation**

**11**. The Horses (Zootechnical Standards) Regulations 1992(**1**) are revoked in relation to Wales.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**).

26 Medi 20006

26 September 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 1992/3045.

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 1992/3045.

(**2**) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

Meini prawf cydnabyddiaeth

**Dull gweithredu cyrff cydnabyddedig**

**1**.-(1) Rhaid i gorff neu gymdeithas sy'n cadw llyfr gre lle y cofnodir tarddiad brid neu sy'n llunio un o'r newydd, fod wedi sefydlu-

(a) system ar gyfer cofnodi pedigri a rhaid bod ganddo neu ganddi'r gallu i gyflawni'r gwiriadau angenrheidiol ar gyfer cofnodi pedigri;

(b) system ar gyfer nodi ceffylau;

(c) diffiniad o nodweddion y brid y mae'r llyfr gre yn ymdrin ag ef;

(ch) diffiniad o amcanion sylfaenol ei ddull o ddethol; a

(d) llinachau a gofnodir mewn un llyfr gre arall neu fwy, lle y bo'n angenrheidiol.

(2) Rhaid i gorff neu gymdeithas sy'n cadw llyfr gre, neu sy'n llunio un o'r newydd, ond nad yw'n cadw llyfr gre lle y cofnodir tarddiad y brid, gydymffurfio â'r egwyddorion a sefydlwyd o dan baragraff (1) gan y corff neu'r gymdeithas sy'n cadw'r llyfr gre lle y cofnodir tarddiad y brid.

(3) Rhaid i unrhyw gorff neu gymdeithas sy'n cadw llyfr gre neu sy'n llunio un o'r newydd fodloni'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod neu ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

**Rhaglenni gwella a dethol**

**2**. Rhaid i gorff neu gymdeithas sy'n cadw llyfr gre neu sy'n llunio un o'r newydd-

(a) bod wedi cofrestru nifer digonol o geffylau i gyflawni rhaglen gwella neu ddethol neu i sicrhau parhad y brid pan dybir bod hyn yn angenrheidiol;

(b) gallu darparu'r data angenrheidiol ar gyfer cyflawni rhaglen gwella, dethol neu raglen sicrhau parhad; ac

(c) bod wedi sefydlu system ar gyfer darparu data sy'n caniatáu i geffylau gael eu gwerthuso at ddiben gwella, dethol a sicrhau parhad brid.

**Trin bridwyr heb gamwahaniaethu**

**3**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid bod gan gorff neu gymdeithas sy'n cadw llyfr gre neu sy'n llunio un o'r newydd reolau gweithdrefn sy'n darparu ar gyfer trin bridwyr heb gamwahaniaethu.

## SCHEDULE

Regulation 3

Criteria for Recognition

**Operation of recognised organisations**

**1**.-(1) An organisation or association which maintains or establishes a stud book of the origin of a breed, must have established-

(a) a system for recording pedigrees and the ability to carry out the checks necessary for recording pedigrees;

(b) a system for identifying horses;

(c) a definition of the characteristics of the breed covered by the stud book;

(d) a definition of its basic objectives of selection; and

(e) lineages entered in one or more other stud books, where necessary.

(2) An organisation or association which maintains or establishes a stud book, but does not maintain the stud book of the origin of the breed, must comply with the principles established under paragraph (1) by the organisation or association which maintains the stud book of the origin of the breed.

(3) Any organisation or association which maintains or establishes a stud book must satisfy the National Assembly that it operates efficiently.

**Improvement and selection programmes**

**2**. An organisation or association which maintains or establishes a stud book must-

(a) have registered a sufficient number of horses to carry out an improvement or selection programme or to preserve the breed where this is considered necessary;

(b) be able to provide the data necessary to carry out an improvement, selection or preservation programme; and

(c) have established a system for providing data whereby horses can be evaluated for the purpose of improvement, selection and breed preservation.

**Non-discriminatory treatment of breeders**

**3**.-(1) Subject to paragraph (2), an organisation or association which maintains or establishes a stud book must have rules of procedure which provide for non-discriminatory treatment of breeders.

(2) Os oes sawl corff neu gymdeithas mewn cysylltiad â brid penodol yn bodoli eisoes o fewn tiriogaeth y Gymuned, caniateir i reolau gweithdrefn corff neu gymdeithas ddarparu bod yn rhaid i geffylau gael eu geni mewn tiriogeth benodol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer eu cofnodi yn llyfr gre'r corff neu'r gymdeithas at ddibenion datgan genedigaeth.

(3) Nid yw'r cymhwyster ym mharagraff (2) yn gymwys os at ddibenion atgenhedlu y cofnodir ceffyl yn y llyfr gre.

(2) Where several organisations or associations already exist within the territory of the Community in respect of a particular breed, the rules of procedure of an organisation or association may provide that horses must be born in a given territory in order to qualify for entry in its stud book for birth declaration purposes.

(3) The qualification in paragraph (2) does not apply where entry in the stud book is for reproduction purposes.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2607 (Cy.220)

## ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2607 (W.220)

## ANIMALS, WALES

The Horses (Zootechnical Standards) (Wales) Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W376/10/06 ON